# Y darn cyfreithiol

Os ydych chi'n cael eich cyflogi yn uniongyrchol gan gwsmer Corfforaethol EE neu bartner EE cymeradwy, gallech gael gostyngiad o 20% ar gynlluniau prisiau dethol gan EE ar gyfer gwneud taliadau misol.

Dim ond cyflogeion cymwys, ynghyd â hyd at bedwar aelod o'ch ffrindiau a'ch teulu, a fydd yn gallu defnyddio'r disgownt neu, os na fyddwch chi'n ei ddefnyddio eich hun, hyd at bum aelod o'ch ffrindiau a'ch teulu. Mae'r disgownt ar gael ar-lein yn unig gan EE, ac nid yw ar gael trwy siopau a thimau manwerthu EE nac os byddwch yn prynu'ch cynllun EE trwy fanwerthwr arall (e.e. Carphone Warehouse).

Cymhwystra: I fod yn gymwys, rhaid i chi fod yn gyflogai i gwsmer Corfforaethol EE neu bartner a gymeradwywyd gan EE. Rhaid i chi, neu aelodau o'ch teulu a'ch ffrindiau, wneud un o'r canlynol:

ymuno ag EE fel cwsmer newydd ar ffôn lle mae'r defnyddiwr yn talu'n fisol, SIM cymwys yn unig, neu gynllun symudol band eang, a hynny am gyfnod o 12 mis o leiaf

bod yn gwsmer EE presennol sy'n gymwys i gael uwchraddiad ar ffôn lle mae'r defnyddiwr yn talu'n fisol, SIM cymwys yn unig, neu gynllun symudol band eang am gyfnod o 12 mis o leiaf, ac uwchraddio i ffôn lle mae'r defnyddiwr yn talu'n fisol, SIM cymwys yn unig, neu gynllun symudol band eang am gyfnod o 12 mis o leiaf. Os oes gennych gynllun ffôn ar hyn o bryd, ni fyddwch yn gallu uwchraddio i gynllun SIM yn unig a chael y gostyngiad hwn.

Ni fydd y gostyngiad yn berthnasol oni bai eich bod yn defnyddio'r cod y byddwn yn ei roi i chi

Gall gweithwyr cymwys, ynghyd â'ch ffrindiau a'ch teulu, gael y gostyngiad ar hyd at bump o gynlluniau prisiau EE.

Y disgownt: Bydd y gostyngiad o 20% yn berthnasol i dâl cylchol misol y cynllun prisiau yn unig, a bydd yn para gydol eich tymor gofynnol. Ar ddiwedd eich tymor gofynnol, bydd taliad cylchol misol eich cynllun prisiau yn dychwelyd i'r pris arferol cyn y disgownt, oni bai eich bod yn uwchraddio unwaith eto gan ddefnyddio cod Mantais EE newydd.

Bydd taliad cylchol misol eich cynllun prisiau yn cynyddu yn ôl y mynegai prisiau manwerthu (RPI) ym mis Mawrth bob blwyddyn. Bydd y cyfrifiad yn seiliedig ar bris di-ostyngiad eich cynllun.

Cynlluniau nad ydynt yn gymwys: Ni allwch gael y gostyngiad os ydych ar gynllun 4GEE Max sy'n cynnwys mantais uwchraddio blynyddol. Ni ellir defnyddio'r disgownt ar y cyd ag unrhyw gynnig neu ostyngiad arall. Nid yw ar gael gyda Family & Friends, 10% Multi-line, gostyngiad uwchraddio cynnar nac Apple Watch.

Yn ychwanegol at delerau ac amodau'r cynnig hwn, mae'n rhaid i chi hefyd gytuno i'r telerau sy'n berthnasol i'ch cynllun prisiau dewisol ar gyfer gwneud taliadau misol, yn ogystal â thelerau rhwydwaith EE. Gellir dod o hyd i'r rhain ar ee.co.uk/terms.